



DYLAN J. WILLIAMS BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanJWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: YM / EN010007
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 19.2.2019

Ms Kay Sully,
The Planning Inspectorate,
National Infrastructure Planning,
Temple Quay House,
2, The Square,
Bristol,
BS1 6NP

Drwy anfon e-bost at Wylfa@PINS.gsi.gov.uk

Annwyl Kay,

Archwiliad DCO EN010007 Wylfa Newydd - Cyflwyniadau Dyddiad Cau 6.

Amgaeaf gopi o Gyflwyniadau Dyddiad Cau 6 CSYM.

Mae'r ymatebion yn y tabl isod.

Pan fydd ymateb yn fwy na datganiad byr, nodir y manylion yn yr Atodiadau cysylltiedig sy'n dilyn y tabl.

Mater	Sylwadau CSYM
Sylwadau CSYM ar Ymateb Horizon i Gwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr Awdurdod Archwilio REP5-002	ATODIAD A
Ymateb i'r camau a nodwyd yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar 7 Ionawr 2019 REP5-053	ATODIAD B Atodiad 1.1 Diogelu Atodiad 1.2 Langley Park Atodiad 1.3 Fframwaith Iaith Gymraeg Atodiad Ar 1 Chwefror 2019, gofynnodd Pŵer Niwclear Horizon (HNP) i CSYM, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd adolygu a gwneud sylwadau ar y nodyn ôl-wrandawriad 'Defnyddio Fframwaith Cymhwysedd Sgiliau Iaith Gymraeg yn ystod y Camau Adeiladu a Gweithredu'. Cadarnhaodd HNP ei fod yn ystyried bod y nodyn yn gyd-ddealltwriaeth y partïon o Fframwaith 1-5 yr Iaith Gymraeg a sut y gellid ei ddefnyddio yn ystod cam adeiladu a gweithredu prosiect DCO Wylfa Newydd. Cyflwynodd CSYM sylwadau yn uniongyrchol i HNP ar 6 Chwefror 2019.

	<p>Ar ôl adolygu'r fersiwn a gyflwynwyd gan HNP ar Ddyddiad Cau 5, mae CSYM yn cadarnhau na wnaed unrhyw newidiadau i'r fersiwn rydym ni wedi gwneud sylwadau arni yn uniongyrchol i HNP.</p> <p>Felly, mae CSYM yn cyflwyno'r un ymateb a gyflwynodd yn uniongyrchol i HNP.</p> <p>Atodiad 1.4 Dull Sicrhau ar gyfer Canolfan Ymwelwyr</p> <p>Mae CSYM yn derbyn na fydd y ganolfan ymwelwyr barhaol yn cael ei sicrhau drwy'r DCO. Fel y gwelir yn y Cytundeb A.106, bydd Horizon yn cyflwyno Cais Cynllunio Gwlad a Thref cyn pen 3 mis o weithredu prosiect Wylfa Newydd.</p> <p>Os bydd Horizon yn methu â sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y Ganolfan Ymwelwyr cyn pen 24 mis (neu os na fydd y Ganolfan Ymwelwyr yn agor cyn pen 24 mis o gael caniatâd cynllunio), bydd gan CSYM hawl i'r (gronfa) Nawdd Canolfan Ymwelwyr er mwyn darparu'r Ganolfan Ymwelwyr.</p> <p>Fel ymateb i Bwynt Gweithredu 8 sy'n codi o'r Gwrandawriad Mater Penodol ar 10 Ionawr 2019, mae CSYM wedi rhoi Nodyn Gwybodaeth ar gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr arfaethedig i HNP. Mae copi o'r Nodyn Gwybodaeth hwn ynghlwm yn Atodiad B.</p>
<p>Ymatebion i'r camau a nodwyd yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar 8 Ionawr 2019 REP5-054</p>	<p>ATODIAD C</p> <p>Atodiad 1.1. Ymgysylltu â Dafydd Griffiths</p> <p>Atodiad 1.2 Sicrhau Ymrwymadau Cytundebol drwy DCO (Cadwyn Gyflenwi)</p> <p>Atodiad 1.3 Data Craidd ar y Llif Traffig Presennol a Thwf Cerbydau Nwyddau Trwm yn y Dyfodol ar yr A5025</p> <p>Atodiad 1.4 Effeithiau trafndiaeth ar ddarparu Llety Gweithwyr Dros Dro yn gynnar</p> <p>Atodiad 1.5 Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Atodiad 1.6 Safbwynt Horizon a LIC ar Faterion sy'n Ymwneud â Cherbydau Nwyddau Trwm ar Bont Britannia</p> <p>Atodiad 1.7 Ystyried Effeithiau Cronnus Prosiectau</p> <p>Atodiad 1.8 Olrhain Cerbydau Nwyddau Trwm ar Bont Britannia</p>

<p>Ymatebion i'r camau a nodwyd yn y Gwrandawriad Mater Penodol ar 11 Ionawr 2019 REP5-056</p>	<p>ATODIAD D</p> <p>Atodiad 1-2 – Adroddiadau'r Arolwg Ymlusgiaid</p> <p>Atodiad 1-3 Ymateb Horizon i'r Cais am Wybodaeth Ychwanegol - Dull Monitro Ymlusgiaid</p> <p>Atodiad 1-4 Adran 7 Gwybodaeth am Gynefinoedd</p> <p>Atodiad 1-7 Eglurhad ynghylch Perygl Llifogydd Parcio a Theithio</p> <p>Atodiad 1-8 Nodyn Technegol ar Llifogydd yr A5025 (Llanfachraeth)</p> <p>Atodiad 1-9 Modelu wedi'i Ddiweddarau i gynnwys Rhwystro Cylfatiau Posib yn Nalar Hir</p> <p>Atodiad 1-10 Modelu Carthion (Bacteria) Atodol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd</p>
<p>Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft yn cynnwys diwygiad(au) a Thabl Newidiadau Cryno i'r DCO Drafft REP5-003</p> <p>3.3 Memorandwm Esboniadol REP5-015</p> <p>Cytundeb a.106 DCO drafft dyddiedig 23 Ionawr 2019 gan gynnwys diwygiadau a nodyn trosolwg REP5-007</p> <p>Atodlen Gwrthwynebiadau Caffael Gorfodol</p>	<p>ATODIAD E</p> <p>Rhan 1 - Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft yn cynnwys diwygiadau (a Thabl Newidiadau Cryno i'r DCO Drafft)</p> <p>Rhan 2 – Memorandwm Esboniadol</p> <p>Rhan 3 - Cytundeb a.106 DCO drafft dyddiedig 23 Ionawr 2019 gan gynnwys diwygiadau a nodyn trosolwg</p> <p>Rhan 4 - Atodlen Gwrthwynebiadau Caffael Gorfodol</p>

8.6 Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa
Newydd (Diwygiad 3.0) REP5-020

8.7 Is-god Ymarfer Adeiladu Prif Safle'r
Orsaf Bŵer (Diwygiad 3.0) REP5-022

8.8 Is-god Ymarfer Adeiladu Gwaith
Morol (Diwygiad 3.0) REP3-024

8.9 Is-god Ymarfer Adeiladu
Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf
Bŵer (Diwygiad 3.0) REP5-027

8.10 Is-god Ymarfer Adeiladu Parcio a
Theithio (Diwygiad 3.0) REP5-028

8.11 Is-god Ymarfer Adeiladu'r
Ganolfan Logisteg (Diwygiad
3.0) REP5-030

ATODIAD F

8.12 Is-god Ymarfer Adeiladu
Priffordd yr A5025 (Diwygiad 3.0)
REP-032

8.13 Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa
Newydd (Diwygiad 3.0) REP5-034

8.29 Strategaeth Pennu Camau
(Diwygiad 3.0) REP5-039

ATODIAD G

Yn unol â chyfarwyddyd yr Awdurdod Archwilio yn y Gwrandawiadau Mater Penodol, mae CSYM wedi bod yn gweithio gyda Horizon i ddatblygu rhagor ar y Dogfennau Rheoli. Rhoddodd HNP gopi drafft o'r Strategaeth Pennu Camau i CSYM ar 23 Ionawr 2019, a chyflwynwyd sylwadau'n uniongyrchol i HNP ar 29 Ionawr 2019. Mae CSYM yn nodi nad yw'r fersiwn a gyflwynwyd i'r archwiliad (Dyddiad Cau 5) yn ymgorffori sylwadau CSYM hyd yma.

Mae CSYM yn atodi copi o'r sylwadau a gyflwynwyd i HNP yn uniongyrchol, a disgwylir iddo gymryd y sylwadau hynny i ystyriaeth yn y diwygiad nesaf. O ystyried yr amserlenni tyn i CSYM gyflwyno sylwadau i HNP fel y manylir uchod, nid oedd y sylwadau hyn yn cynnwys popeth ac mae CSYM yn cadw'r hawl i wneud rhagor o sylwadau yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r sylwadau a ddarparwyd yn barod, mae CSYM am gyflwyno'r sylwadau ychwanegol canlynol.

Mae CSYM yn nodi'r cyfyngiad cyn cyflawni ar y Ganolfan Logisteg ym Mharc Cybi sy'n ymwneud â nifer y symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm a allai ddigwydd ar yr A5025. Mae CSYM yn nodi mai uchafswm y symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm ychwanegol yw 44 o symudiadau dwyffordd Cerbydau Nwyddau Trwm yr awr, 320 o symudiadau dwyffordd Cerbydau Nwyddau Trwm y dydd, a 5000 o symudiadau dwyffordd Cerbydau Nwyddau Trwm y mis, yn y cyfyngiad hwn ac yn y cyfyngiadau Newidiadau i Briffordd yr A5025 a chyfleusterau dadlwytho morol. Fel y nodir yn y gwrandawriad mater penodol ar 8 Ionawr 2019, mae CSYM yn ystyried bod cynnydd o 40% yn uwch na lefel llif gwaelodlin Cerbydau Nwyddau Trwm yn gap dyddiol priodol ar gyfer symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm cyn agor y gwaith i'r briffordd. Wrth ystyried gwaelodlin Cerbydau Nwyddau Trwm o 225 o Gerbydau Nwyddau Trwm yn 2020, byddai cap o 40% yn caniatáu oddeutu 100 o symudiadau dwyffordd ychwanegol gan Gerbydau Nwyddau Trwm y dydd. Felly, nid yw CSYM yn derbyn y cap a gynigir gan Horizon a fydd yn caniatáu 320 o symudiadau dwyffordd gan Gerbydau Nwyddau Trwm y dydd.

O ran darparu campws y safle, nid yw CSYM yn derbyn bod y newidiadau i'r strategaeth pennu camau

yn mynd i'r afael â'i bryderon, ac mae'n dal at ei safbwynt fel y nodir ar ddyddiad cau 4 REP4-034.

	<p>O ran tabl 2.2 diffiniad o sbardunau, nid yw CSYM yn derbyn bod y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn mynd i'r afael â'i bryderon ac mae'n dal at ei safbwynt blaenorol.</p> <p>Byddai CSYM hefyd yn gofyn am ragor o eglurhad a chysondeb o ran yr amserlen ar gyfer cyflawni pob cam o'r prosiect. Mae anghysonderau rhwng y flwyddyn galendr a'r flwyddyn adeiladu, sy'n ei gwneud yn amhosib i gymharu'r amserlenni ac asesu effeithiau. Nid yw'r amserlen adeiladu ddangosol a amlinellir yn Ffigur 2-1 [REP5-039] yn ddigon manwl a chywir i allu asesu effeithiau'n briodol (e.e. dylid rhannu pennu camau Campws y Safle yn dri cham). Os yw'r Strategaeth Pennu Camau am fod yn Ddogfen Ardystiedig, bydd yn rhaid cynnwys llawer mwy o fanylion am y gostyngiad graddol, nid manylion y trothwyon a'r sbardunau yn unig.</p> <p>Mae CSYM yn cydnabod bod y Strategaeth Pennu Camau nawr yn cynnwys eglurhad ynghylch y sbardunau ar gyfer cyflawni'r twmpathau (A-E). Mae'r troednodyn yn nodi y 'bydd y twmpathau tirweddu yn parhau i newid yn ystod y cyfnod adeiladu wrth i ddeunydd gael ei ychwanegu a'i glirio'.</p> <p>Heblaw wyneb allanol Twmpath Sŵn B, ni fydd y gwaith tirweddu hirdymor yn cael ei wneud ar unrhyw un o'r Twmpathau tan ddiwedd y cyfnod adfer, a fydd yn debygol o fod ym Mlwyddyn 9. Rhwng diwedd llunio Twmpathau A, C ac E (Ch.2 Blwyddyn 3) ac adfer y dirwedd yn derfynol, bydd y gwaith yn cael ei gyfyngu i hadu dros dro, ac mae Horizon yn awyddus i gael yr hyblygrwydd i ychwanegu neu glirio deunydd o Dwmpathau A, C ac E.</p> <p>Mae CSYM wedi gwneud sylwadau ynghylch gofynion WN9 (1) o'r dDCO diweddaraf [REP5-003] yn y cyflwyniadau ar wahân i Ddyddiad Cau 6 - Atodiad E Rhan.</p>
<p>Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd Rhan 1 o 2 a Rhan 2 o 2 (Diwygiad 3.0) REP5-036</p>	<p>GWELER ATODIAD H</p>
<p>Strategaeth Rheoli'r Gweithlu (Diwygiad 2.0) REP5-037</p>	<p>ATODIAD I</p> <p>Yn unol â chyfarwyddyd yr Awdurdod Archwilio yn y Gwrandawiadau Mater Penodol, mae CSYM wedi bod yn gweithio gyda Horizon i ddatblygu rhagor ar y Dogfennau Rheoli. Rhoddodd HNP gopi drafft o'r Strategaeth Rheoli'r Gweithlu i CSYM ar 01 Chwefror 2019, a chyflwynwyd sylwadau'n uniongyrchol i HNP ar 06 Chwefror 2019. Mae CSYM yn nodi nad yw'r fersiwn a gyflwynwyd i'r archwiliad yn ymgorffori sylwadau CSYM.</p>

	Mae CSYM yn atodi copi o'r sylwadau a gyflwynwyd i HNP yn uniongyrchol, a disgwylir iddo gymryd y sylwadau hynny i ystyriaeth yn y diwygiad nesaf. Fodd bynnag, o ystyried yr amserlenni tyn i CSYM gyflwyno sylwadau i HNP, nid oedd y sylwadau hyn yn cynnwys popeth ac mae CSYM yn cadw'r hawl i wneud rhagor o sylwadau yn y dyfodol.
2.4 Cynlluniau Hawliau Tramwy REP5-012	Nid yw CSYM wedi gallu adolygu'r rhain am nad ydynt wedi cael eu lanlwytho i Wefan PINS.
2.6.1 Ardal Datblygu Wylfa Newydd - Cynlluniau Safle'r Orsaf Bŵer (Rhan 1 o 2 a Rhan 2 o 2) (Diwygiad 3.0) REP5-013 a REP5-015	Oherwydd yr amserlenni tyn, nid yw CSYM wedi cael cyfle i'w hadolygu. Bydd CSYM yn darparu sylwadau yn y Gwrandawriad Mater Penodol ym mis Mawrth os bydd angen.
2.11 Parcio a Theithio - Cynlluniau Dalar Hir Canolfan Logisteg - Cynlluniau Parc Cybi	Oherwydd yr amserlenni tyn, nid yw CSYM wedi cael cyfle i'w hadolygu. Bydd CSYM yn darparu sylwadau yn y Gwrandawriad Mater Penodol ym mis Mawrth os bydd angen.
Cais gan yr Awdurdod Archwilio yn ASI Diwrnod 2 (14.02.19) am wybodaeth ynghylch safle Rhosgoch	ATODIAD J

Os bydd angen eglurhad arnoch ynghylch yr uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Dylan J. Williams
Pennaeth Gwasanaeth
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd